Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

YSGOL I.D. HOOSON

11.02.22

Annwyl Rieni/Ofalwyr,

Dydd Gŵyl Dewi – Gan y byddwn yn dathlu Dydd Gwyl Dewi ar Fawrth y 1af, gofynnwn i'r plant ddod i'r ysgol mewn gwisg sydd yn dathlu ei Cymreictod. Gall hyn fod yn grys rygbi neu bêl-droed Cymru, neu wisg draddodiadol Cymreig.

Dyledion – Gan ei bod yn ddiwedd yr hanner tymor, gofynnwn yn garedig i unrhyw un sydd gyda dyledion cinio, Meithrin Mwy, neu glwb ar ôl ysgol i sicrhau fod rhain wedi ei talu cyn dydd Gwener Chwefror 18fed. Ni fydd yn bosib cynnig cinio ysgol, lle yn y Meithrin mwy neu glwb ar ôl ysgol hyd nes y bydd dyledion wedi ei talu. Diolch am eich cydweithrediad.

Ffarwelio - Byddwn yn ffarwelio gyda Mr Carwyn Jones ar ddiwedd yr hanner tymor hwn. Mae Mr Jones wedi gweithio gyda ni yn yr ysgol fel cymhorthydd dosbarth dros y ddwy flynedd olaf. Rydym yn diolch iddo am ei cyfraniad yn ystod ei amser gyda ni.

Diwrnod y Llyfr – Gan y byddwn yn dathlu Diwrnod y Llyfr ar ddydd Mawrth , Mawrth y 3ydd, bydd cyfle i'r plant ddod i'r ysgol wedi gwisgo fel un o gymeriadau o lyfr y maent wedi ei ddarllen. Byddai hefyd yn wych pe byddai'r plant yn gallu dod a'r llyfr gyda nhw i'r ysgol er mwyn cael rhannu ychydig o wybodaeth am y cymeriad gyda gweddill y dosbarth.

Hanner Tymor - Bydd yr ysgol yn cau am hanner tymor mis Chwefror ar ddydd Gwener Chwefror y 18fed. Bydd yr ysgol yn ail agor i'r staff ac i'r plant ar ddydd Mawrth Mawrth y 1af, gan y bydd dydd Llun Chwefror y 28ain yn ddiwrnod gwyliau ychwangeol o ganlyniad i Jiwbili'r Frenhines.

Diolch am eich cydweithrediad parhaus, gan ddymuno hanner tymor pleserus i chi gyd.

Yn gywir,

Rhodri Jones
Pennaeth